**Comisiwn y Cynulliad**
**Assembly Commission**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**AC(4)2011(5) Papur 5**

**Dyddiad:** 20 Hydref 2011
**Amser:** 13:00-15:00
**Lleoliad:** Swyddfa'r Llywydd
**Enw a rhif cyswllt yr awdur:** Claire Clancy, est 8233

# Adroddiad y Bwrdd Rheoli i'r Comisiwn Hydref 2011

## Amlinelliad


1.0 Nod strategol – darparu cymorth seneddol eithriadol .......................... 2
2.0 Nod strategol – ymgysylltu â phobl Cymru .......................................... 4
3.0 Nod Strategol – hyrwyddo Cymru.......................................................... 7
4.0 Nod strategol – defnyddio adnoddau'n ddoeth .................................... 9
5.0 Adroddiad ariannol ............................................................................ 11
6.0 Gwybodaeth arall .............................................................................. 12


## Rhestr o atodiadau

- Atodiad A: Rhyddid gwybodaeth
- Atodiad B: Cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio (9 Mehefin a 7 Gorffennaf)

**AC(4)2011(5) (Papur 5)**
**Adroddiad y Bwrdd Rheoli i'r Comisiwn**

**Nodau strategol Comisiwn y Cynulliad**

## 1.0 Nod strategol – darparu cymorth seneddol eithriadol

1.1 Y wybodaeth ddiweddaraf am fusnes y Cynulliad

a. Mae busnes y pwyllgorau bellach ar waith, ac mae arwyddion cynnar yn awgrymu bod pwyllgorau'n ymddangos yn fwy prysur nag yn ystod y cyfnod cyfatebol yn y Trydydd Cynulliad. Ers dechrau tymor yr hydref, mae amryw o bwyllgorau wedi sefydlu is-grwpiau ffurfiol i gynnal ymchwiliadau penodol. Ar 4 Hydref, roedd hyn yn cynnwys:

- Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Polisi Amaethyddol Cyffredin;
- Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin;
- Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gaffael (bydd yn gweithio'n anffurfiol); a
- Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ragolygon ar gyfer Dyfodol y Cyfryngau yng Nghymru

b. Yn ychwanegol at yr ymchwiliadau sy'n cael eu cynnal gan yr is-grwpiau hyn, mae'r pwyllgorau eu hunain yn cynnal ymchwiliadau i'r:

- Polisi Ynni a chynllunio yng Nghymru
- Aflonyddu ar sail anabledd yng Nghymru
- Adfywio canol trefi
- Iechyd y Geg mewn Plant yng Nghymru
- Diogelwch Cymunedol yng Nghymru
- Cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-13
- Lleihau'r Risg o Strôc

- Cyfraniad a wneir gan fferyllfeydd cymunedol i wasanaethau iechyd yng Nghymru

- Rhoi pwerau i Weinidogion Cymru yn Neddfau'r DU

c. Maent hefyd yn gwneud gwaith ychwanegol, fel paratoi ar gyfer craffu ar y gyllideb, ymchwilio i adroddiadau blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r Comisiynwyr Plant a Phobl Hŷn, a chyfarfod â rhanddeiliaid mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau.

d. Mae'r lefel hon o weithgarwch a'r amserlen pwyllgorau newydd yn creu'r angen i addasu dulliau ac arferion gweithio Aelodau a staff. Yn arbennig, mae galw uchel am wybodaeth a disgwylir i waith gael ei ddychwelyd o fewn terfyn amser tyn iawn, gyda rhai Aelodau'n mynegi dymuniad i wybodaeth fod ar gael yn fwy cyflym. Mae staff cymorth y pwyllgorau'n gweithio gyda Chadeiryddion ac Aelodau i sicrhau y gellir bodloni gofynion mewn ffordd gynaliadwy.

1.2 Y Bwrdd Taliadau

a. Cyfarfu'r Bwrdd Taliadau ar 23 Medi i drafod ei raglen waith ar gyfer y dyfodol. Yn ystod y blynyddoedd nesaf bydd y Bwrdd yn cynnal adolygiad o bensiynau Aelodau'r Cynulliad, a bydd yn parhau i fonitro'r ffordd y caiff ei Benderfyniad ei roi ar waith yn seiliedig ar atborth gan Aelodau a'u staff. Fel rhan o'i adolygiad o drefniadau pensiwn, bydd y Bwrdd yn cynnal ymgynghoriad cynnar ag Aelodau a rhanddeiliaid eraill ar egwyddorion darparu pensiwn ar gyfer Aelodau'r Cynulliad. Mae hyn yn debygol o gynnwys ymgynghoriad ysgrifenedig a chynhadledd i'w chynnal yn y gwanwyn. Bydd y Bwrdd yn cymryd rhan mewn ymgynghoriad parhaus ar bob agwedd ar ei raglen waith ar gyfer y dyfodol.

b. Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd Taliadau ar 25 Tachwedd.

1.3 Rhaglen y Pedwerydd Cynulliad

a. Cynhaliodd y rhaglen sesiwn ar y gwersi a ddysgwyd gyda staff y Cynulliad yn ddiweddar a bydd yn gwneud yr un peth gydag arweinwyr staff cymorth o bob un o'r grwpiau plaid. Mae Cymdeithas Hansard yn gwneud gwaith ymchwil

annibynnol gyda'r Aelodau Cynulliad newydd i'w profiad o'r Cynulliad a'r cymorth a roddwyd iddynt i'w helpu i ymgartrefu yn eu swyddogaethau newydd. Caiff y deunydd hwn, a'r atborth a gasglwyd gan Aelodau'n fwy cyffredinol, ei gynnwys mewn papur i'r Comisiwn yn y dyfodol, a'i ddefnyddio i lywio'r broses gynllunio a gweithredu ar gyfer y Pumed Cynulliad.

1.4 Llif gwybodaeth o Lywodraeth Cymru

a. Mae swyddogion y Llywodraeth a'r Comisiwn bellach wedi dod i gytundeb ar y *Protocol ar gyfer Cysylltiad rhwng Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Ymchwil y Cynulliad Cenedlaethol* a ddaeth i rym ar 10 Hydref 2011. Mae hyn wedi i'r Prif Weinidog gytuno ar argymhelliad y Bwrdd Taliadau y dylid gwneud trefniadau ar gyfer cael mynediad at wybodaeth sy'n cael ei dal gan Lywodraeth Cymru, sy'n cyfateb i'r trefniadau hynny yn sefydliadau seneddol eraill y DU.

b. Mae'r protocol yn disgrifio'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Gwasanaeth Ymchwil ac mae'n nodi'r trefniadau gwaith i'r Gwasanaeth Ymchwil gael mynediad at wybodaeth gan y Llywodraeth ar ran Aelodau'r Cynulliad.

c. Y prif newid yw y gall y Gwasanaeth Ymchwil gysylltu â'r swyddogion polisi perthnasol dros y ffôn i gael eglurhad neu i ganfod lleoliad deunydd a gyhoeddwyd yn flaenorol, yn hytrach na gorfod cyflwyno pob cais yn ysgrifenedig i swyddfeydd preifat y Gweinidogion, a gall anfon e-bost yn uniongyrchol at swyddogion ar gyfer pob cais arall. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyhoeddi pob cwestiwn ac ymateb ar gofnod datgelu ar ei gwefan.

d. Cedwir golwg ar y protocol a'r berthynas waith newydd er mwyn sicrhau'r gwasanaeth gorau posibl i Aelodau.

**2.0 Nod strategol – ymgysylltu â phobl Cymru**

2.1 Sylw yn y cyfryngau

a. Roedd gwaith y cyfryngau yn ystod toriad yr haf yn canolbwyntio ar roi cyhoeddusrwydd i weithgareddau

allgymorth y Llywydd, gan gynnwys darnau a chyfweliadau mewn papurau newydd gan gynnwys y *Western Mail,* y *Daily Post*, a'r *South Wales Argus.*

b. Rhoddwyd cryn sylw i lansio'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y Bil Ieithoedd Swyddogol a'r Cynllun Gwasanaethau Dwyieithog, gan gynnwys darn yn cyflwyno syniadau gan Keith Bush yn y Western Mail ac erthyglau'n rhoi cyhoeddusrwydd i'r gweithdai Gwasanaethau Dwyieithog.

2.2 Gweithgareddau ymgysylltu dros yr Haf

a. Ymwelodd bws y Cynulliad â phum digwyddiad cenedlaethol a saith digwyddiad rhanbarthol ar draws Cymru. Daeth dros 6,500 o bobl i'r bws i sgwrsio â staff y Cynulliad ac i gymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau.

b. Bu'r Llywyddion mewn nifer o sioeau a buont yn cyfarfod ag amrywiaeth o sefydliadau i drafod eu blaenoriaethau, ac i sefydlu sut y gall y Cynulliad, gyda'i bwerau newydd, sicrhau bod y materion hyn yn cael eu hamlygu.

c. Cynhaliodd y Pwyllgor Deisebau a'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd gyfarfodydd a gweithdai buddiol yn Sioe Frenhinol Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol.

2.3 Y Cynulliad fel deddfwrfa ddoe, heddiw ac i'r dyfodol

a. Cynhaliodd y Cynulliad gynhadledd mewn partneriaeth â Chanolfan Llywodraethiant Cymru a Grŵp Astudio'r Senedd ym mis Medi i ystyried datblygiad y Cynulliad fel deddfwrfa. Ymhlith y cyfranwyr yr oedd yr Athro Richard Wyn Jones (Cyfarwyddwr Canolfan Llywodraethiant Cymru), yr Athro Laura McAllister o Brifysgol Lerpwl, Syr Christopher Jenkins (cyn Brif Gwnsler Seneddol), ac Alan Trench (arbenigwr cyfansoddiadol).

b. Rhoddodd y gynhadledd, a agorwyd gan y Llywydd, hefyd gyfle i lofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Chanolfan Llywodraethiant Cymru, a fydd, yn y dyfodol, wedi'i lleoli yn y Pierhead.

2.4 Cynllun Cydraddoldeb Strategol Drafft

a. Mae'r Bwrdd Rheoli wedi cytuno'n ddiweddar ar yr amcanion a nodir yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol drafft y Comisiwn. Mae'r Llywydd a Chomisiynydd y Cynulliad sydd â chyfrifoldeb dros gydraddoldeb hefyd wedi rhoi eu cefnogaeth iddynt. Mae tîm Cydraddoldeb Comisiwn y Cynulliad bellach wedi dechrau ar y broses ymgynghori a fydd yn parhau drwy fis Hydref a mis Tachwedd. Gofynnir am sylwadau gan holl Aelodau'r Cynulliad, staff y Cynulliad, grwpiau sydd â diddordeb arbennig a'r cyhoedd yn ystod y cyfnod hwn. Caiff ymatebion eu dadansoddi a byddant yn cyfrannu at y cynllun terfynol. Caiff hwn ei ddychwelyd at y Bwrdd Rheoli i'w ystyried cyn ei gyflwyno i Gomisiwn y Cynulliad i'w gymeradwyo'n ffurfiol yn y cyfarfod ym mis Chwefror 2012. Caiff y Cynllun Cydraddoldeb Strategol terfynol ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2012.

2.5 Atborth ymgyrch Pleidleisiwch 2011

a. Yn 2010, dyfeisiodd y Cynulliad strategaeth cyfathrebu i hyrwyddo'r tri chyfle oedd gan bobl Cymru i bleidleisio yn 2011. Nod yr ymgyrch a oedd yn rhedeg ar ddechrau 2011, oedd codi ymwybyddiaeth, annog pobl i bleidleisio, cefnogi nod y Comisiwn o hyrwyddo datganoli ac annog mwy o bobl i gymryd rhan yn y broses a gosod y Comisiwn fel ffynhonnell gwybodaeth addysgiadol, ddiduedd ac awdurdodol.

b. Argraffwyd mwy na 20,000 o daflenni Pleidleisiwch 2011ac fe'u dosbarthwyd. Yn ychwanegol at hynny, gwelodd dros 52,500 o ymwelwyr â'r Senedd rhwng mis Gorffennaf 2010 a mis Ionawr 2011 y taflenni a'r deunyddiau arddangos.

c. Ymwelodd Bws y Cynulliad â'r 22 ardal awdurdod lleol a'r rhan fwyaf o'r etholaethau etholiadol cyn dechrau'r moratoriwm cyn refferendwm ym mis Chwefror. Rhoddwyd cyflwyniadau allgymorth i 626 o bobl, bu 269 o bobl yng nghynadleddau Pleidleisiwch 2011, a siaradodd swyddogion â 1,350 o fyfyrwyr yn Ffeiriau'r Gleision ar draws Cymru.

d. Arweiniodd yr ymgyrch hysbysebu ar-lein at 7,767 clic ar y microsafle, ac yn ystod yr ymgyrch, ymwelodd mwy na 2,000 o bobl â thudalennau Pleidleisiwch 2011 ar wefan y Cynulliad.

Cafodd yr ymgyrch hysbysebu 25 miliwn o argraffiadau (nifer y troeon y gellir gweld yr hysbyseb ar-lein).

e. Cafodd Pleidleisiwch 2011 sylw yn y byd darlledu gan BBC Breakfast, BBC News 24, Newyddion Rhwydwaith y BBC (amser cinio a min nos) a Radio 5 Live a Radio 4 – gan dynnu sylw cynulleidfa gyfunol o tua 24 miliwn o bobl. Yn ychwanegol at hynny, cyrhaeddodd sylw yn y wasg leol yng Nghymru (teitlau dyddiol fel y Western Mail a'r Daily Post) yn ogystal â theitlau rhanbarthol wythnosol, oddeutu 700,000 o ddarllenwyr ar gyfartaledd.

f. Cafodd yr ymgyrch ei rhoi ar restr fer ar gyfer Gwobrau Canmol Cymru Sefydliad Siartredig Marchnata 2011, ond ni fu'n llwyddiannus y tro hwn.

**3.0 Nod strategol – hyrwyddo Cymru**

3.1 Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad

a. Bu dau aelod yn 57ain cynhadledd Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad ar ran y Cynulliad ym mis Gorffennaf. Thema'r gynhadledd, a groesawyd gan Dŷ'r Cyffredin, oedd 'Reinforcing Democracy in the New Age'.

b. Ym mis Gorffennaf, cynrychiolodd y Dirprwy Lywydd y Cynulliad mewn gweithdy CALRE (Cynhadledd (Llywyddion) Cynulliadau Deddfwriaethol Rhanbarthol Ewrop) ar 'The Dynamics of European Regionalism' yn yr Eidal. Mae'r cofnodion a'r adroddiadau a drafodwyd yn y gweithdy ar gael ar wefan y Cynulliad.

c. Bu'r Llywydd mewn cyfarfod o Bwyllgor Sefydlog CALRE yn Tenerife ym mis Medi. Yn y cyfarfod, bu'r Pwyllgor yn trafod y mater o fewnfudo o Affrica a'i effaith ar wledydd Ewrop, ac enwebiadau ar gyfer llywydd nesaf CALRE. Bydd y cofnodion a'r adroddiadau a drafodwyd yn y cyfarfod ar gael ar wefan y Cynulliad.

3.2 Agoriad Swyddogol y Pedwerydd Cynulliad

a. Roedd Agoriad Swyddogol y Pedwerydd Cynulliad ym mis Mehefin 2011 yn cynnwys dau ddigwyddiad:

i. 'Dathlu'r Byrllysg ', a gynhaliwyd ar 6 Mehefin mewn partneriaeth â Chyngor Rhyng-ffydd Cymru; ac

ii. Agoriad Brenhinol y Pedwerydd Cynulliad gan Ei Mawrhydi'r Frenhines, yng nghwmni Ei Uchelder Brenhinol Dug Caeredin a'u Huchelder Brenhinol Tywysog Cymru a Duges Cernyw.

b. Roedd 298 o wahoddedigion yn bresennol yn yr Agoriad Brenhinol, gan gynnwys cynrychiolwyr o farnwriaeth Cymru a'r Goruchaf Lys, gwesteion Aelodau'r Cynulliad, cynrychiolwyr cymdeithas sifil Cymru a llywodraeth leol, a chynrychiolwyr llysgenhadol.

c. Cafodd adroddiad ar yr agoriad swyddogol, sy'n nodi'r gwersi a ddysgwyd a chost derfynol yr agoriad (£39,518 yn erbyn cyllideb o £51,000), ei ystyried gan y Llywyddion. Gellir sicrhau bod copi ar gael i Gomisiynwyr os gwneir cais.

d. Bu'r atborth ynghylch yr agoriad yn gadarnhaol ar y cyfan, gan gynnwys gohebiaeth gan Ei Mawrhydi'r Frenhines a'i Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru yn mynegi'u llongyfarchiadau i'r cynulliad ar achlysur cofiadwy a phleserus.

3.3 Ymweliad y Prif Weinidog – Gorffennaf 2011

a. Rhoddodd y Prif Weinidog, yng nghwmni Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Dirprwy Brif Weinidog, anerchiad i'r Cynulliad yn y Siambr ym mis Gorffennaf 2011 yn dilyn cyfarfod rhanbarthol o Gabinet y DU. Yn ei araith, rhoddodd y Gwir Anrhydeddus David Cameron AS deyrnged i'r rhan y mae Cymru wedi'i chwarae o ran llunio'r DU, a phwysleisiodd y dylai datganoli aeddfed olygu "parch y naill i'r llall, rhannu syniadau ac ysbryd o gydweithio". Cadarnhaodd hefyd y byddai proses debyg i Gomisiwn Calman yn yr Alban yn cael ei sefydlu i geisio consensws ar gyfeiriad datganoli yn y dyfodol a'r ffordd y caiff Cymru ei hariannu.

b. Yn dilyn yr ymweliad, lluniodd y swyddogion Allgymorth adroddiad ar y gwersi a ddysgwyd er mwyn llywio ymweliadau tebyg yn y dyfodol.

## 4.0 Nod strategol – defnyddio adnoddau'n ddoeth

4.1 Y Pwyllgor Cyllid – 6 Hydref 2011

a. Ar 6 Hydref, bu Angela Burns AC, ynghyd â Claire Clancy a Steven O'Donoghue, mewn Pwyllgor Cyllid i graffu ar gyllideb ddrafft y Comisiwn ar gyfer 2012-13. Holodd aelodau'r Pwyllgor am y cynnydd arfaethedig yn y gyllideb o'i gymharu â'r gostyngiadau sy'n cael eu gwneud yn y gyllideb mewn mannau eraill yn y sector cyhoeddus. Eglurodd y Comisiynydd gynigion y Comisiwn ar gyfer diogelu a gwella gwasanaethau i Aelodau, a'r hyn fyddai wedi digwydd pe bai'r Comisiwn wedi penderfynu parhau â strategaeth o leihau'r gyllideb flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae gan y Pwyllgor dair wythnos i osod ei adroddiad gerbron. Y bwriad presennol yw gosod cyllideb derfynol y Comisiwn gerbron ar 9 Tachwedd, ar gyfer dadl ar y cynnig ar 16 November.

4.2 Pwyllgor Archwilio

a. Mae cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 9 Mehefin a 7 Gorffennaf 2011 ynghlwm yn Atodiad B er gwybodaeth.

4.3 Rhaglen buddsoddi

a. Mae ein Rhaglen Newid wedi newid pwyslais ac fe'i gelwir bellach yn Rhaglen Fuddsoddi. Diben y newid oedd symleiddio'r ffordd y caiff y rhaglen ei rheoli a rhoi mwy o bwyslais ar reoli prosiectau a sicrhau bod pob prosiect yn destun gwaith craffu gofalus a beirniadol, gyda chyfraniadau priodol gan arbenigwyr.

b. Y prosiectau allweddol sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd yw cynigion i ddatblygu system Adnoddau Dynol a chyflogres gyfunol, ac adnewyddu offer TGCh y Senedd. Mae ystyriaeth gychwynnol hefyd yn cael ei rhoi i opsiynau ar gyfer amnewid system Merlin. Rhagwelir y bydd y Rhaglen Fuddsoddi'n gwario £960,000 eleni.

4.4 Gweithredu diwydiannol – 30 Tachwedd

a. Mae'r undebau llafur wedi galw am ddiwrnod cyfunol o streicio ddydd Mercher 30 Tachwedd i brotestio yn erbyn diwygio pensiynau sector cyhoeddus Llywodraeth y DU gan gynnwys cynnydd arfaethedig yn y cyfraniadau o fis Ebrill 2012. Mae'r tair undeb a gydnabyddir gan y Comisiwn (PCS, Prospect a'r FDA) i gyd wedi nodi'u cefnogaeth gyffredinol i'r gweithredu a'u bwriad i gynnal pleidlais gudd ymhlith eu haelodau. Mae penderfyniad anarferol yr FDA (undeb yr uwch reolwyr a'r gweithwyr proffesiynol) i gynnal pleidlais gudd ar gyfer gweithredu'n ddiwydiannol yn arwydd o gryfder y teimladau ynghylch y diwygiadau.

b. Roedd tua 40 y cant o weithlu'r Comisiwn yn absennol o'r gwaith o ganlyniad i'r diwrnod diwethaf o weithredu diwydiannol ar 30 Mehefin (gan eu bod ynghlwm â'r streic yn uniongyrchol). Roedd rhagor o aelodau o staff yn absennol oherwydd dyletswyddau gofal a oedd yn deillio o'r ffaith bod ysgolion ar gau ac ati. Mae oddeutu 60 y cant o staff y Comisiwn yn aelodau o undeb llafur.

c. Mae cynlluniau parhad busnes y Comisiwn yn cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod yr holl gamau ymarferol yn cael eu cymryd i leihau effaith y gweithredu ar fusnes.

4.5 Rheoli presenoldeb

a. Mae cyfraddau absenoldeb staff y Comisiwn yn is nag erioed o ganlyniad i roi Polisi cadarn ond cefnogol y Comisiwn o Reoli Presenoldeb ar waith. Yn ystod y deuddeg mis hyd at fis Awst gostyngodd y lefel absenoldeb i gyfartaledd o 5.72 diwrnod i bob gweithiwr. Roedd cyfraddau absenoldeb wedi codi ar gyfartaledd o 10.6 diwrnod y flwyddyn yn 2007. Mae'r cyfraddau absenoldeb presennol yn cymharu'n ffafriol â gwybodaeth meincnodi sy'n dangos cyfartaledd o 7.9 diwrnod i bob gweithiwr cyfwerth ag amser llawn mewn sefydliadau sector cyhoeddus sydd â rhwng 250 a 500 o weithwyr.

4.6 Staff diogelwch

a. Yn dilyn cynnig gwell i staff diogelwch newid i oriau gwaith newydd, ni chafwyd unrhyw wirfoddolwyr ychwanegol. Gan fod yn well gan y Comisiwn symud at y patrymau gwaith newydd yn wirfoddol, mae ymarfer recriwtio wedi cychwyn er

mwyn sicrhau bod gennym ddigon o staff i ymdrin ag anghenion y Cynulliad, gan gynnwys bod ar agor saith diwrnod yr wythnos, a Chyfarfodydd Llawn neu ddigwyddiadau sy'n parhau i fin nos.

b. Wynebir rhan o'r gost o ddod â staff newydd i mewn drwy gael gwared â'r angen am oramser a oedd wedi'i gynllunio. Fodd bynnag, yn y tymor byr, bydd cynnydd net yn y gost o tua £240k y flwyddyn ond bydd hyn yn lleihau gan na fydd unrhyw un yn cymryd lle staff diogelwch sy'n parhau i weithio ar yr hen batrymau pan fyddant yn gadael neu'n ymddeol.

4.7 Pennaeth Caffael

a. Cynigiwyd y swydd hon, a fydd yn gwella'r sgiliau sydd ar gael i ni o ran caffael a rheoli contractau, i Jan Koziel, sydd ar hyn o bryd yn Bennaeth Caffael gydag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru. Mae wedi derbyn y swydd. Bydd yn dechrau ar ei waith ar 1 Tachwedd. Mae'r swydd yn secondiad dwy flynedd a chaiff ei hadolygu tua diwedd y cyfnod hwnnw. Yn fuan wedi iddo ymuno â ni, bydd Jan yn siarad â'r holl Gomisiynwyr i gael eu hatborth a'u syniadau ynghylch materion yn ymwneud â chaffael.

## 5.0 Adroddiad ariannol

5.1 Cyfanswm y gyllideb ar gyfer 2011-12 yw £48.8 miliwn. Mae'r sefyllfa ar ddiwedd mis Awst yn dangos cyfanswm gwariant net o £12.339 miliwn ar gyfer Gwasanaethau'r Cynulliad. Mae hyn o fewn 0.5 y cant o'r gwariant arfaethedig. Mae Aelodau'r Cynulliad wedi defnyddio 37 y cant o gyfanswm eu cyllideb flynyddol.

5.2 Mae cwmpasau cyllideb Gwasanaethau'r Cynulliad ac Aelodau'r Cynulliad yn cynnwys adnodd etholiad unigryw nad yw'n debygol o gael ei ddefnyddio'n llawn. Yn arbennig, pennwyd cyllideb Aelodau'r Cynulliad gyda'r costau etholiad unigryw wedi'u hamcangyfrif gan ddefnyddio mwy o drosiant o Aelodau yn yr etholiad nag a ddigwyddodd mewn gwirionedd, gyda'r canlyniad nad oedd angen swm sylweddol (£1.8m). Mae'r uwch dîm rheoli yn ystyried y mater ar hyn o bryd er mwyn penderfynu ar y cronfeydd sy'n debygol o gael eu dychwelyd i Floc Cymru, a byddant yn dod â phapur yn nodi'r materion i gyfarfod y Comisiynwyr ym mis Tachwedd.

## 6.0 Gwybodaeth arall

6.1 Mae rhestr o wybodaeth a ddatgelwyd ers yr adroddiad diwethaf o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ynghlwm yn **Atodiad A**. Gellir darparu'r datgeliad llawn i Gomisiynwyr os gwneir cais.

**Atodiad A**

**Gwybodaeth a ddatgelwyd yn dilyn ceisiadau am fynediad at wybodaeth (Mai - Medi 2011)**

- Y costau ynghlwm â rhedeg Swyddfa'r Dirprwy Lywydd dros y pum mlynedd diwethaf
- Costau'r Cynulliad mewn perthynas â'r Briodas Frenhinol
- Taliadau a wnaed gan y Cynulliad i fargyfreithwyr
- Nifer y sieciau a gyflwynwyd gan y Cynulliad
- Gwybodaeth mewn perthynas â swyddi gwag a lanwyd gan staff y Cynulliad
- Costau adroddiad y Comisiynydd Safonau a chostau'r cynnig i adfer Aelod y Democratiaid Rhyddfrydol a chostau cyfieithu
- Costau hedfan gan ddefnyddio llwybr awyr Gogledd/De Cymru er mis Ebrill 2010 a'r nifer ohonynt
- Gwybodaeth mewn perthynas â chyfnodau'r toriad

**Gwybodaeth na ddatgelwyd yn dilyn ceisiadau am fynediad at wybodaeth (Mai - Medi 2011)**

- Gwybodaeth mewn perthynas â TGCh a manylion am serfwyr
- Cyngor cyfreithiol mewn perthynas ag Aelodau a gafodd eu diarddel
- Gohebiaeth rhwng Aelod Cynulliad a'r Comisiwn
- Gwybodaeth bersonol mewn perthynas â'r ceisiadau uchod

**Atodiad B**

Pwyllgor Archwilio Comisiwn y Cynulliad
Assembly Commission Audit Committe

**NAFWC ACAC**
**Cofnodion 9 Mehefin 2011**

**Amser:** 11:00
**Lleoliad:** Ystafell Gynadledda 4B

# Cofnodion cyfarfod 09 Mehefin 2011

**Presennol:**
Richard Calvert (Cynghorydd Annibynnol) (Cadeirydd)
Tim Knighton (Cynghorydd Annibynnol)
Yr Athro Pickard (Cynghorydd Annibynnol)

**Swyddogion yn bresennol:**
Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc
Dianne Bevan, Prif Swyddog Gweithredu
Nicola Callow, Pennaeth Cyllid
Mark Jones, Swyddfa Archwilio Cymru
Lynne Flux, Pennaeth Archwilio Mewnol
Rachael Tonkin, KPMG
John Grimes, Pennaeth Llywodraethu
Alison Rutherford, Ysgrifenyddiaeth

**Eitem 1 – Croeso a chyflwyniadau**

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau

**Datgan buddiannau**

2. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Ebrill**

3. Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol.

**Materion yn codi**

4. Rhoddodd Claire Clancy grynodeb o'r digwyddiadau yn y Cynulliad ers y tro diwethaf i'r Pwyllgor Archwilio gyfarfod. Yn dilyn yr etholiad ym mis Mai cafwyd 23 o Aelodau newydd i'r Cynulliad, Llywydd newydd,

Rosemary Butler, a Dirprwy Lywydd newydd, David Melding. Etholwyd pedwar Comisiynydd newydd, Angela Burns, Peter Black, Rhodri Glyn Thomas a Sandy Mewies. Byddai portffolio pob un o'r Comisiynwyr, gan gynnwys aelodaeth o'r Pwyllgor Archwilio, yn cael ei gytuno yng nghyfarfod y Comisiynwyr ar 16 Mehefin.

Dywedodd Claire ei bod wedi cael atborth cadarnhaol iawn yn dilyn cyfnod cynefino'r Aelodau, gan gynnwys canmoliaeth gan y Prif Weinidog bod y broses wedi bod yn llwyddiannus ac wedi'i gwerthfawrogi.

Cynhaliwyd yr Agoriad Brenhinol yr wythnos flaenorol i agor y Pedwerydd Cynulliad yn ffurfiol, a bu'n llwyddiannus iawn.

Rhoddodd Claire amlinelliad o'r digwyddiadau mewn cysylltiad â diarddel dau o Aelodau Cynulliad y Democratiaid Rhyddfrydol o ganlyniad i fod yn aelodau o sefydliad a restrwyd yng Ngorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2011. Cafodd cynigion i ddiystyru'r diarddeliad eu cyflwyno, ond byddai'n rhaid i unrhyw ddadl ar y cynigion ddilyn yr ymchwiliadau presennol gan yr Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron, ac adolygiad mewnol.

*Archwilio Allanol*

5. Dywedodd Mark Jones mai Richard Harries fyddai Cyfarwyddwr Archwilio newydd Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y Comisiwn. Byddai'n cyfarfod â Claire Clancy cyn hir a byddai'n bresennol yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio.

**Eitem 2 - Archwilio Mewnol**
**Papur 1 Cynnydd gyda'r rhaglen Archwilio Mewnol**

6. Cyflwynodd Lynne Flux y papur a dywedodd fod y gwaith ar gyfer rhaglen 2010/11 wedi'i gwblhau. Gofynnodd Lynne am sylwadau gan y Pwyllgor ynghylch defnyddioldeb y papur i'w ddefnyddio ar gyfer cylch archwilio 2011-12, a'i ffurf . Cytunodd y Pwyllgor ei fod yn grynodeb clir ac yn ffordd ddefnyddiol o olrhain cynnydd.

**Papur 5 Adroddiad Archwilio Mewnol ar y Gyflogres**

7. Cyflwynodd Rachael Tonkin o KPMG yr adroddiad ar y Gyflogres, archwiliad cwmpas llawn, a gafodd raddfa gyffredinol Foddhaol. Dywedodd Rachael fod yr amgylchedd rheoli o fewn y gyflogres yn gryf iawn ond bod angen symleiddio'r broses reoli er mwyn cael graddfa

uwch. Cytunwyd ar dri argymhelliad a dylent gael eu rhoi ar waith yn fuan. Pwysleisiodd y Pwyllgor bwysigrwydd rheolaeth effeithiol.

**Papur 6 Archwiliad Mewnol o Reoli Risg**

8. Amlinellodd Rachael Tonkin ganfyddiadau'r adolygiad cwmpas cyfyngedig o Reoli Risg yn y Cynulliad. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod tystiolaeth bod Rheoli Risg wedi'i hen sefydlu a'i fod yn cael ei drin ar bob lefel yn y Cynulliad.

9. Roedd yr adroddiad yn gwneud nifer o argymhellion ar gyfer gwella. Roedd y rhain yn cynnwys mân wendidau o ran rheoli'r broses risg a darparu mwy o eglurder wrth gofnodi risgiau. Yn benodol, gellid newid arddull yr adroddiadau er mwyn sicrhau bod risgiau allweddol yn cael eu hamlygu ac nad ydynt yn mynd ar goll yn y manylder. Un awgrym oedd darparu adroddiad ar y deg risg uchaf i'r Pwyllgor Archwilio er mwyn sicrhau bod risgiau allweddol yn cael eu cofnodi'n uniongyrchol.

10. Nododd y Cadeirydd fod Rheoli Risg wedi'i hen sefydlu yn niwylliant y Cynulliad, a bod y gwelliannau a awgrymwyd yn fân. Pwysleisiodd y Pwyllgor y manteision o gofnodi clir, a gellir cael cymorth offer TG i wneud hyn.

**Papur 3 Barn ac Adroddiad Blynyddol gan y Pennaeth Archwilio Mewnol**

11. Cyflwynodd Lynne Flux y papur a oedd yn rhoi crynodeb o'r adolygiadau a gynhaliwyd yn ystod 2010-11. O'r cyfanswm o 47 argymhelliad a wnaed, ystyriwyd 9 yn uchel. Mynegodd Lynne farn gadarnhaol ar yr amgylchedd rheoli yn y Comisiwn. Wrth ddod i'r casgliad hwn roedd y Pennaeth Archwilio Mewnol wedi cael sicrwydd o'r gwaith a wnaed yn y rhaglen archwilio mewnol ac o ffynonellau eraill. Roedd y diwethaf yn cynnwys Datganiadau Sicrwydd Cyfarwyddwyr a gwaith archwilio Swyddfa Archwilio Cymru ar dreuliau aelodau.

12. Nododd Mark Jones fod Swyddfa Archwilio Cymru'n cytuno â'r sicrwydd a mynegodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor yn derbyn y farn honno.

**Papur 4 Y cynnydd gyda'r argymhellion**

13. Bu'r Pwyllgor yn ystyried y papur a oedd yn rhoi manylion am y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd gydag argymhellion adroddiadau Archwilio Mewnol o raglen 2010/11.

14. O ran yr argymhellion Rheoli Contractau, cadarnhaodd Dianne Bevan fod trefniadau gwirio llym wedi'u rhoi ar waith mewn perthynas â materion yn ymwneud â rheoli contractau, a bod materion a chyngor cyfreithiol yn cael eu hystyried yn fanwl lle mae hynny'n angenrheidiol.

15. Dywedodd John Grimes wrth y Pwyllgor y byddai Pennaeth Caffael newydd yn cael ei benodi cyn hir i gryfhau'r tîm, i werthuso'r prosesau ac i roi sicrwydd i'r Prif Weithredwr. Dywedodd John wrth y Pwyllgor y byddai papur yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Newid i ystyried agwedd strategol tuag at y Rhaglen Newid ac i egluro'r amrywiol swyddogaethau.

16. Pwysleisiodd Claire Clancy bwysigrwydd cael y strwythurau a'r systemau cywir ar waith a sicrhau bod ymrwymiad corfforaethol i gyflenwi contractau.

17. Pwysleisiodd y pwyllgor bwysigrwydd cynnwys dyddiadau gweithredu wrth edrych ar gynnydd, ac olrhain ble mae dyddiadau ar goll. Awgrymodd y Pwyllgor y gellid eithrio'r ymateb rheoli o'r adroddiad er mwyn osgoi dyblygu gwaith, ac y gallai 'goleuadau traffig' fod yn ddefnyddiol wrth fonitro cynnydd gydag argymhellion. Cytunwyd ar hyn. Lynne Flux i oruchwylio diwygiadau i'r adroddiadau a gynhyrchwyd.

**Papur 2 Cynllun Archwilio 2011/12**

18. Cyflwynodd Lynne Flux y Cynllun Archwilio a dywedodd wrth y Pwyllgor mai nod cynllun 2011/12 oedd sicrhau bod gwaith yn cael ei rannu'n fwy cyson drwy'r flwyddyn. Dywedodd y byddai rhywfaint o adnoddau mewnol ar gael i helpu i gwblhau'r gwaith hwn. Ers y cyfarfod diwethaf, roedd wedi gallu darparu cynllun mwy manwl gyda KPMG, gyda dyddiadau targed i adolygu'r Pwyllgor Archwilio . Ymhlith y newidiadau allweddol ers ystyriaethau'r Pwyllgor yn y cyfarfod diwethaf yr oedd:

    - Y Pedwerydd Cynulliad. Roedd y rhaglen 4AP yn cynnal ymarfer 'gwersi a ddysgwyd'. Byddai'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn cyfrannu at y broses hon yn hytrach nag ymgymryd â darn o waith ar wahân.

    - Cynnwys gwefannau. Byddai darn byr o waith mewnol yn cael ei wneud i asesu sut mae cynnwys yn cael ei reoli ar hyn o bryd. Trefniadau llywodraethu a gwneud penderfyniadau yng Nghomisiwn y Cynulliad. Byddai hyn yn cael ei wneud yn fewnol a byddai'r byrddau a'r

pwyllgorau sy'n gweithredu yn y Comisiwn yn cael eu mapio er mwyn asesu effeithiolrwydd a'r posibilrwydd o ddyblygu swyddogaethau.

- Roedd y Gwasanaeth Adnoddau'n ymgymryd â'r gwaith o edrych ar dwyll, chwythu'r chwiban a'r Ddeddf Llwgrwobrwyo. Roedd yr Adran Archwilio Mewnol yn cymryd rhan yn hyn er mwyn datblygu cofrestr risg twyll gyda grwpiau staff.

**Eitem 3 – Cyfrifon Blynyddol 2010-11**
**Papur 7 Cyfrifon adnoddau drafft 2010-11**

19. Cyflwynodd Nicola Callow y papur a'r cyfrifon, gan ddweud eu bod wedi'u cwblhau i raddau helaeth, gyda rhywfaint o waith drafftio'r sylwebaeth i'w gwblhau. Cyflwynwyd y cyfrifon i Swyddfa Archwilio Cymru ar amser ar 1 Mehefin a chyflwynodd y Comisiwn y cyfrifon terfynol i'r Pwyllgor ar amser yn y cyfarfod ar 7 Gorffennaf.

20. Amlygodd Nicola un ailddatganiad a oedd yn cyfeirio at y newid yn y dull o gyfrifo costau taliadau cyfalaf, a dywedodd fod y tâl hwn wedi'i dynnu o gyfrif y Comisiwn yn unol â chanllawiau'r Trysorlys.

21. Canfu'r Pwyllgor rai meysydd lle byddai croes gyfeirio rhwng datganiadau a nodiadau'r cyfrifon yn sicrhau bod darlun cliriach ar gael. Cytunodd Nicola Callow i gynnwys croes gyfeiriadau lle'r oedd hynny'n angenrheidiol.

**Eitem 4 Archwilio Allanol**
**Y wybodaeth ddiweddaraf ar lafar am y farn archwilio allanol sy'n ymddangos ar gyfer y flwyddyn ariannol 2010-11**

22. Diolchodd Mark Jones o Swyddfa Archwilio Cymru i'r Comisiwn am ansawdd y cyfrifon drafft a gyflwynwyd i'w harchwilio. Dywedodd nad oedd unrhyw ganfyddiadau sylweddol hyd yma ac y byddai Swyddfa Archwilio Cymru'n cyflwyno adroddiad llawn yng nghyfarfod mis Gorffennaf. Dywedodd Mark hefyd eu bod wedi mynd i'r afael ag absenoldeb salwch un aelod o'r tîm archwilio ar ddechrau'r archwiliad ac na fyddai hynny'n cael effaith ar yr amserlen

**Eitem 5 Llywodraethu Comisiwn y Cynulliad**
**Papur 9 Adroddiad Chwarterol ar Reoli Risg**

23. Cyflwynodd Dianne Bevan y papur a dywedodd y byddai angen ystyried yr ymarfer o ragweld yr hyn sydd ar y gorwel a'r gofrestr strategol yn wyneb

nodau strategol newydd y Comisiwn. Y materion allweddol ar y gorwel oedd risgiau Rheoli Contractau, gweithredu diwydiannol posibl, a rhywfaint o oedi gyda'r prosiect ABMS yn wyneb problemau gyda'i lwytho ar y system.

24. Awgrymodd y Pwyllgor y dylid monitro cofrestri'n ofalus ac y gellid nodi goleuadau traffig a chyfeiriad teithio cyfraddau risg er mwyn adrodd yn fwy clir.

**Eitem 6 Eitemau eraill**
**Dyddiadau cyfarfodydd y dyfodol**

25. Gofynnodd y Cadeirydd am i'r Rhaglen Waith gael ei dosbarthu gyda'r agenda ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol. Dywedodd y Cadeirydd nad oedd penderfyniad wedi'i wneud ynghylch dyddiadau ar ôl cyfarfod mis Gorffennaf, gan nodi fod cyfarfodydd mis Mehefin a mis Gorffennaf wedi'u trefnu i gyd-fynd â'r cyfrifon drafft a therfynol. Byddai John a Lynne yn canfod dyddiadau ar gyfer y dyfodol i gefnogi'r Rhaglen Archwilio Mewnol ac yn eu dosbarthu i'r Pwyllgor.

**Eitem 7 Papurau i'w nodi**
**Papur 11 Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio**

26. Dywedodd y Cadeirydd fod yr Adroddiad Blynyddol wedi'i gwblhau a'i ddosbarthu, ac wedi'i gytuno drwy e-bost.

**Papur 12 Adroddiad ymadael**

27. Nododd y Cadeirydd fod llai o ymadawiadau nag yng nghyfarfod mis Ebrill oherwydd bod yr adroddiad hwn yn cynnwys cyfnod llai o amser. Holodd y Pwyllgor am y 'gwerth am arian' honedig yn y crynodeb o'r gwyriad o ran y contract Cynnal a Chadw Bysiau. Gofynnodd y Pwyllgor i John Grimes ymchwilio i'r mater ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

**Unrhyw fater arall**

28. Dywedodd Mark Jones wrth y Pwyllgor y byddai David Wood, Arweinydd y Tîm Archwilio yn Swyddfa Archwilio Cymru yn gadael ar ôl archwilio'r Cyfrifon Blynyddol, ac y byddai arweinydd tîm newydd wedi'i benodi ar gyfer archwiliad y flwyddyn nesaf.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

29. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 7 Gorffennaf – y lleoliad i'w gadarnhau.

## Pwyllgor Archwilio Comisiwn y Cynulliad
## Assembly Commission Audit Committee

**NAFWC ACAC**
**Cofnodion cyfarfod 7 Gorffennaf 2011**

**Amser:** 11:00
**Lleoliad:** Ystafell Fideogynadledda, Tŷ Hywel,

# Cofnodion cyfarfod 7 Gorffennaf 2011

**Presennol:**
Richard Calvert (Cynghorydd Annibynnol) (Cadeirydd)
Tim Knighton (Cynghorydd Annibynnol)
Yr Athro Robert Pickard (Cynghorydd Annibynnol)
Angela Burns, AC

**Swyddogion yn bresennol:**
Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc
Dianne Bevan, Prif Swyddog Gweithredu
Nicola Callow, Pennaeth Cyllid
Lynne Flux, Pennaeth Archwilio Mewnol
Richard Harries, Swyddfa Archwilio Cymru
Mark Jones, Swyddfa Archwilio Cymru
John Grimes, Pennaeth Llywodraethu

**Eitem 1 – Cyflwyniadau**

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau

**Datgan buddiannau**

2. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mehefin 2010**

3. Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol.

**Materion yn codi**

4. Para 27 'gwyriad o ran y contract cynnal a chadw bysiau' Dywedodd John Grimes ei fod wedi ymchwilio i'r amgylchiadau y tu ôl i'r gwyriad hwn. Bu'n ofynnol cymryd camau o'r fath oherwydd bod llai na thri

thendr wedi'u derbyn. Dywedodd fod hyn yn seiliedig ar farn y rheolwr contract yn y lle cyntaf, ac ychydig o ddadansoddi a gyflwynwyd i gefnogi hyn, er bod ystyriaeth wedi'i rhoi ynghylch a oedd y tendr dewisol yn cynnig gwerth am arian. Dywedodd y byddai gweithdrefnau'n cael eu cryfhau er mwyn sicrhau dadansoddiad mwy trylwyr mewn achosion yn y dyfodol.

5. Arweiniodd hyn at drafodaeth ehangach ar y risgiau sy'n gysylltiedig â chaffael a rheoli prosiectau yn y Cynulliad. Nododd y Cadeirydd fod camau'n cael eu cymryd a fydd yn arwain at benodi Pennaeth Caffael newydd a gofynnodd a oedd swyddogion yn teimlo bod y dulliau diogelwch sydd ar waith yn ddigonol yn y cyfamser. Wrth ymateb i hyn tynnodd Claire Clancy sylw at y ffordd y cafodd ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â chaffael a sensitifrwydd tuag atynt eu codi yn y Cynulliad. Hefyd amlinellodd y dull newydd o graffu ar brosiectau a'u cymeradwyo a'r cwrs hyfforddi diweddar a ddarparwyd ar gyfer rheolwyr contract. Er na ellir dileu pob risg, credai Claire Clancy fod y sefyllfa bresennol yn foddhaol ond y byddai'n cael ei chryfhau'n llwyr wedi i'r holl gamau arfaethedig gael eu rhoi ar waith. Dywedodd y byddai'n rhoi adroddiad cynnydd ar ymarferion caffael i'r Pwyllgor Archwilio ym mhob cyfarfod, tra bod y pryderon yn parhau.

**Cadarnhau cofnodion**

6. Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor ei fod yn bwriadu anfon y cofnodion at Gomisiwn y Cynulliad ar ôl pob cyfarfod. Er mwyn osgoi oedi byddai'n gofyn i Aelodau eu cadarnhau drwy e-bost yn y dyfodol yn hytrach nag aros tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor.

**Eitem 2 – Cyfrifon a Sicrwydd Blynyddol 2010/2011**
**ACAC(9) Papur 1 Cyfrifon Adnoddau 2010/2011**
**ACAC(9) Papur 2 Adroddiad ISA 260 Swyddfa Archwilio Cymru 2010/2011**

7. Amlinellodd Nicola Callow y newidiadau a wnaed i'r cyfrifon ers i'r Pwyllgor Archwilio ystyried y fersiwn ddrafft ar 10 Mehefin. Er bod nifer o fân newidiadau wedi'u gwneud yn dilyn yr archwiliad, nid oedd y rhain o bwys mawr.

8. Atgyfnerthodd Richard Harries y neges hon gan ddweud mai bwriad Swyddfa Archwilio Cymru oedd cyhoeddi adroddiad diamod ar y cyfrifon. Ychwanegodd fod ei dîm wedi gwerthfawrogi'n fawr y ffordd

gydweithredol yr oedd swyddogion wedi gweithio â hwy – ac yn enwedig wrth ymdrin â'r newid munud olaf mewn perthynas â chostau pensiwn a oedd wedi deillio o ganllawiau hwyr a dderbyniwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ar 1 Gorffennaf.

9. Nododd y Pwyllgor Archwilio'r newid y bu'n rhaid ei wneud i'r ffordd o drin cyfrifon ar gyfer costau gwasanaeth a roddwyd y cynllun pensiwn. Er nad oedd hyn yn effeithio'n sylweddol ar gasgliadau'r cyfrifon roedd y Pwyllgor yn ei ystyried yn anfoddhaol y byddai angen gwneud newid o'r math hwn ar ôl diwedd y flwyddyn.

10. Nododd y Pwyllgor Archwilio'r perfformiad ariannol boddhaol iawn a gafwyd yn ystod y flwyddyn a gofynnwyd am i'w llongyfarchion gael eu cyfleu i'r Tîm Cyllid. Roedd y Pwyllgor yn croesawu'n arbennig y gwelliant parhaus dros y tair blynedd diwethaf ac roedd tystiolaeth o hyn yn yr adroddiad ISA260 diweddaraf. Daeth y Pwyllgor i ben drwy argymell y dylai'r Swyddog Cyfrifyddu lofnodi'r cyfrifon.

**Eitem - 3 Dyddiadau cyfarfodydd y dyfodol**
**ACAC(9) Papur 3 Dyddiadau cyfarfodydd y dyfodol**

11. Cytunwyd ar ddyddiadau cyfarfodydd y dyfodol.

**Eitem 4 – Papur i'w nodi**
**ACAC(9) Papur 4 Adroddiad ar y prosiect TRS**

12. Nododd y Pwyllgor Archwilio'r adroddiad ar y prosiect hwn a bod y gwersi i'w dysgu ohono'n adlais o'r rheini a gafwyd o adroddiadau diweddar eraill ac roedd sylw eisoes yn cael eu rhoi iddynt.

13. Yn ystod y drafodaeth pwysleisiodd aelodau o'r Pwyllgor Archwilio'r swyddogaeth allweddol y mae'r Uwch Swyddog Cyfrifol yn ei chwarae mewn prosiect, a swyddogaeth hanfodol rheolwr prosiect profiadol. Pwysleisiodd Aelodau bwysigrwydd cyngor cadarn lle'r oedd materion technegol dan sylw a nodwyd y gallai ymgynghorwyr TGCh annibynnol gynorthwyo i 'gwmpasu' prosiect. Nododd y Pwyllgor hefyd bwysigrwydd rheolaeth gadarn o ddogfennau wrth ymdrin â materion prosiect cymhleth.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

14. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 11 Tachwedd.